Ysgol Gynradd Henblas,Llangristiolus, Bodorgan,
Ynys Môn, LL62 5DR. ☎ 01248 723944
6602156_pennaeth.henblas@hwbcymru.net

Rhagfyr 20/December 20, 2021
Annwyl riant/gwarcheidwad

Sioeau Nadolig

Y Nadolig hwn mae'n bleser rhannu tair sioe yn cyflwyno gwyrth y geni mewn tri fersiwn gwahanol. Ynghanol yr holl darfu sydd wedi bod ar rediad Ysgol Henblas dros y saith wythnos diwethaf, mae'r ffaith ein bod yn gallu rhannu y dair sioe yn wyrth yn ei hun. Mae'r dair sioe wedi eu rhannu ar Google Class a Seesaw. Atgoffir nad yw'r fideos hyn i'w rhannu ar unrhyw blatfform arall oherwydd rheolau preifatrwydd.
Dosbarth glas - 'Draw 'mhell mewn llong ofod'. Mae'r sioe yn dilyn taith estroniaid yn ymweld â'r ddaear ac yn dysgu am y Nadolig.

Dosbarth oren - 'Y Stori Fawr'. Sioe am ddau blentyn yn dysgu gwir ystyr y Nadolig.

Dosbarth melyn a gwyrdd - 'Nadolig yn Rwla'. Sioe wedi ei seilio yng ngwlad y Rwla yn seiliedig ar gymeriadau llyfrau Rala Rwdins.

Ionawr 2022

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y 16/12/2021 bydd yr ysgol yn ail agor i blant ar ddydd Llun, Ionawr 10ed.

HMS

Ni fydd yr ysgol ar agor i blant ar:
18/2/2021
6/6/2021

Mrs Erin Ashton

Rydym yn dymuno yn dda i Mrs Erin Ashton sydd wedi cael penodiad fel athrawes dros gyfnod mamolaeth mewn ysgol gyfagos. Fel staff mae gennym feddwl mawr o Mrs Ashton ac mae hi wedi rhoi cymaint o egni er mwyn codi safonau yn Ysgol Henblas. Rydym yn gwybod y bydd yn llwyddo ymhellach ac mae wedi bod yn bleser pur cydweithio.

Calendr Adfent o chwith

Diolch i bawb a gefnogodd ein hapêl ar gyfer y banc bwyd eleni. Ymdrech anhygoel! Mae'r holl gynnyrch bellach wedi mynd i'r banc bwyd.

Diwrnod siwmper Nadolig

Ar Ragfyr 10ed fe lwydfoch chi i godi £320.50 tuag at Achub y Plant a phlentyn mewn ysgol gyfagos sydd wedi cael diagnosis o gancr. Diolch o galon.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gydag Anti Diane a'r teulu yn dilyn profedigaeth cymar ei mam. Estynwn ein cofion cynhesaf tuag at Anti Diane, Anti Rozena a'r teulu yn eu hiraeth.

Caban newydd

Mae'r cylch meithrin wedi symud i'r caban newydd ers diwedd Tachwedd. Yn y flwyddyn newydd fe fydd proses dendro yn digwydd fydd yn cynnwys cais ar gyfer gofal ar ol ysgol. Byddwn yn eich diweddaru pan fydd datblygiadau.

Gwyliau Nadolig

Dymunwn Nadolig Llawen i bawb a blwyddyn newydd well. Diolch i'r staff am eu holl ymroddiad er lles a datblygiad y plant dros y flwyddyn. Diolch i chi fel rheini am bob cefnogaeth ac i'r plant am eu cwmni a'r holl hwyl. Cadwch yn ddiogel.

Yn gywir,
Huw Edward Jones

Dear parent/guardian,

Christmas shows

This Christmas it is a pleasure to share three shows presenting the miracle of birth in three different versions. In the midst of all the disruption that has taken place at Ysgol Henblas over the past seven weeks, the fact that we can share the three shows is a miracle in itself. All three shows are shared on Google Class and Seesaw. A reminder that due to privacy regulations - these videos are not to be shared on any other platform.
Blue class - 'Away in a spaceship'. The show follows the journey of aliens visiting earth and learning about Christmas.

Orange class - 'The big story.' A show where two children learn the true meaning of Christmas.

Yellow and green class - 'Christmas at Rwla!' A show located in Rwla based on the characters of the Rala Rwdins books.

January 2022

Following the Welsh Government announcement on 16/12/2021 the school will re-open for children on Monday, January 10th.

INSET

The school will not be open to children on:
18/2/2021
6/6/2021

Mrs. Erin Ashton

We wish Mrs Erin Ashton all the best in her role as a maternity teacher at a nearby school. As staff we have a great regard for Mrs Ashton and she has put so much energy into raising standards at Ysgol Henblas. We know she will succeed further and it has been a real pleasure to work with her.

Back to front Advent Calendar

Thank you so much to everyone who supported the food bank appeal this year. Fantastic effort!

Christmas jumper day

On December 10th you raised £320.50 towards Save the Children, as well as a child at a nearby school who has been diagnosed with cancer. Many, many thanks for your generosity once again.

Condolences

We extend our sympathies to Anti Diane and the family following the bereavement of her mother's partner.

New cabin

Cylch meithrin has moved to the new cabin since the end of November. In the New Year a tender process will take place which will include an application for after school care. We will keep you updated as developments occur.

Christmas Holidays

We wish everyone a Merry Christmas and a Happy New Year. Thanks to the staff for all their dedication to the welfare and development of the children over the year. Thanks to all parents for their support throughout the year and to the children for being so good. Stay safe.

Sincerely
Huw Edward Jones
Pennaeth/headteacher